

## *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni a gynhaliwyd Nos Fawrth y 11eg o Fedi 2007.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr T Les Jones (Cadair) – Nantlle; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Elwyn Jones Griffith, Ann Vaughan Jones, Dyfed Edwards (Cyng Sir), Ifan Glyn Jones – Penygroes; Dafydd Glyn Owen, Sharon Wynne Owen, Harry Wyn Owen, D Martin Williams – Talysarn; OP Huws, Dilwyn Lloyd – Cyngorwyr Sir.

Gwahoddwyd Hywel Williams A.S. i'r cyfarfod i drafod y problemau gwrthgymdeithasol yn y Dyffryn. Cafwyd trafodaeth ddiddorol iawn ar nifer o bwyntiau gan gynnwys problemau yfed dan oed, pwerau'r heddlu i gymryd gafael ar ganiau diod a phaent, diffyg adnoddau'r Heddlu i'n ardal ni, prinder Heddlu ym Mhenygroes a'r lefel o drosiant heddwision yn yr ardal hon. Bydd Hywel Williams yn gwneud ymholiadau gyda'r Heddlu ar ran y Cyngor. Diolchwyd iddo am ddod i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd Llyr Edwards o Tai Eryri i adrodd yn ol i'r Cyngor, ganlyniadau Holiadur Tai Dyffryn Nantlle. Roedd yn ymddangos o'r canlyniadau bod angen yn bodoli am dai yn Dyffryn Nantlle. Fe'n hysbyswyd am brynhawn agored yn Neuadd Llanllyfni ar y 27 o Fedi, ac am fore agored yn Garndolbenmaen ar y 28 o Fedi.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- Safle ger Awelfa, Heol Buddyg, Penygroes – Adeiladu ty.
- Chwarel Gloddfa Glai – Symud tomen wastraff llechi a chreu mynedfa ac allanfa cerbydol i ddarparu agregau i gynllun ffordd yr A499 ac i ryddhau'r tir ar gyfer ei ddatblygu.
- Stad Ddiwydiannol Penygroes – gosod ffens.
- Fferm y Gwenyn, Penygroes – adeiladu pedwar ty (mewn dau bar).
- Hen Safle Adeiladwyr, Ffordd Clynnog, Penygroes – 3 ty newydd.
- Plot 1 Hen Lon, Talysarn – Newid dau ffenestr Velux a chodi ffenestri dormar a chodi lolfa ar gefn yr annedd.
- 5 Cefn Faes Llyn, Penygroes – codi estyniad dau lawr i ochr y ty.
- 1 Bank Quay, Talysarn – codi un ty annedd a newid y fynedfa.
- 1 Fron Deg, Llwyn y Fuches, Penygroes – estyniad dau lawr a newidiadau i'r fynedfa.
- Hen iard Lo, Ffordd yr Orsaf, Talysarn – un ty newydd.

Fe'n hysbyswyd o benderfyniadau Cyngor Gwynedd ar geisiadau cynllunio eraill sef:

CANIATAU – Estyniad deulawr 72 Ffordd Hyfrydle, Talysarn; 13 o dai newydd a mynediad ar llain o dir ger Glanaber, Llanllyfni; Gosod llechi crog ar edrychiad deheuol Capel Nasareth, Llanllyfni; Estyniad deulawr i 19 Stad Morawel, Penygroes; Rhannu iard ddiwydiannol i ffurfio 3 iard, iard RTS Scaffolding, Penygroes; Trosi stablau yn lety gwyliau yn Plas Dorothea, Talysarn; Estyniad deulawr 15 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni.

GWRTHOD – Estyniad a dormeri 1 Pant y Celyn, Tal Garnedd, Llanllyfni.

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd parthed problemau parcio tu allan i'r Co-op ym Mhenygroes. Darllenwyd y llythyr. Roedd y Swyddog wedi cysylltu gyda'r Clerc yn cynnig i'r Cyngor Cymuned wneud cais i Gyngor Gwynedd roi cyfyngiad ar oriau llwytho y tu allan i'r Co-op.

## **Adroddiadau Pentrefi:**

Penygroes: Lloches bws – penderfyniad ynglyn a dyfodol y lloches - Dim ond un llythyr a ddaeth i law yn ymateb i'r adroddiad a roddwyd yn y wasg. Gofynwyd i'r Clerc roi copi o'r llythyr i'r Heddlu ym Mhenygroes. Penderfyniad y Cyngor oedd bod angen cael gwared a'r lloches bws cerrig, a chael un plastic tryloyw yn ei le. Mae angen newid y sefyllfa bresennol – byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd (Malcolm Cowtan) am gyfarfod safle.

Llanllyfni: Angen glanhau carreg filltir wrth fynedfa Ty Draw i'r Afon (ger Maes Castell); Drain yn tyfu o'r cae i'r palmant ac i gefn y sedd wrth fynedfa Lon Ddwr; Gwteri Lon Ddwr angen eu glanhau; Wal bron a disgyn ger Hen Bost Nasareth. Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Llwybrau Derbyniwyd cwynion am faw cwn yn ofnadwy ar Lon Eifion. Mae hyn wedi cael ei godi yn barod gyda Cyngor Gwynedd). Mae cwn i fod ar dennyn, ond yn aml iawn mae perchnogion yn gadael iddynt fynd yn rhydd ar y llwybr, a mae fandaliaid wedi malu'r biniau baw cwn.